

1

Cefndir

Cynhaliodd CTMSB Adolygiad Ymarfer Oedolion Estynedig ar ôl i fenyw ifanc gael ei chanfod yn drasig wedi marw. Roedd ei marwolaeth yn annisgwyl, ac mae achos ei marwolaeth yn parhau i fod yn aneglur gan na ddaethpwyd o hyd iddi am beth amser. Roedd gan y fenyw ifanc hon anghenion cymhleth yn deillio o drawma yn y gorffennol, salwch meddwl a chamddefnyddio llawer o sylweddau. Cafodd ddiagnosis o Anhwylder Personoliaeth Emosiynol Ansefydlog ac roedd yn ddibynnol ar alcohol a bensodiasepinau. Roedd hi'n isel ei hysbryd, yn hunan-niweidio ac weithiau roedd ganddi feddyliau am hunanladdiad. Roedd ei hiechyd corfforol yn wael. Roedd yn cael ei chefnogi gan rwydwaith o asiantaethau a gwasanaethau.



ADOLYGIAD YMARFER OEDOLION ESTYNEDIG

ADULT J

2

Cyd-destun

Bu'r flwyddyn cyn ei marwolaeth yn un gythryblus. Daeth y cysylltiad â'i mab ifanc i ben, dechreuodd berthynas â rhywun a oedd hefyd â phroblemau iechyd meddwl ac a oedd yn camddefnyddio sylweddau. Roedd trais domestig difrifol yn nodweddu eu perthynas, ac roedd hefyd yn ei rheoli'n orfodol. Yn ystod y flwyddyn gwnaed unarddeg o alwadau 999 naill ai gan y fenyw ifanc hon neu gan rywun a ddaeth o hyd iddi. Roedd pedair galwad am faterion iechyd corfforol; dwy oherwydd ei bod wedi ceisio lladd ei hun a dwy oherwydd trais yn y cartref. Cafodd ei derbyn i'r ysbyty chwe gwaith. Roedd ganddi hefyd broblemau ariannol ac roedd wedi cael rhybudd i adael ei llety.

7

Datblygu Systemau ac Ymarfer

- Wrth weithio gydag achosion cymhleth ystyriwch atgyfeiriadau i'r Panel Achosion Cymhleth sy'n darparu cyfle amlasiantaeth i adolygu unigolion sy'n cyflwyno gyda lefel sylweddol o risg
- MARACs – adolygu presenoldeb i sicrhau bod y bobl briodol yn bresennol. Hefyd, Cadeiryddion MARAC i gael eu hatgoffa i ganfod yn rheolaidd pryd gwelwyd y person ddiwethaf.
- Sefydlu protocol gyda fferyllwyr i dynnu sylw pan fydd y rhai sy'n agored i niwed ac mewn perygl yn methu casglu eu presgripsiwn
- Digwyddiad adborth thematig i'w drefnu i ledaenu'r hyn a ddysgwyd o adolygiadau diweddar am reolaeth drwy orfodaeth
- Pob asiantaeth i adolygu eu hyfforddiant cyfredol i sicrhau ei fod yn cynnwys ymarfer sy'n seiliedig ar drawma.



3

Pwyntiau Dysgu Allweddol

Gweithio gyda rhywun sy'n anodd ymgysylltu ag ef: mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng cyswllt ac ymgysylltiad gwirioneddol. Roedd yn anodd ymgysylltu â'r fenyw ifanc hon ac roedd yn dethol pa wasanaethau yr oedd hi'n cyfathrebu â hwy. Teimlai gweithwyr proffesiynol eu bod, bob amser, yn 'ymladd tân,' bob amser yn ymateb i argyfyngau yn hytrach na gweithio gyda chynlluniau clir a chadarnhaol.

Trais yn y cartref a rheolaeth orfodol: mae'n llechwraidd, yn bwerus, yn bellgyrhaeddol ac yn anodd ei herio. Yn aml nid yw dioddefwyr rheolaeth drwy orfodaeth yn sylweddoli eu bod yn ddioddefwyr, dim hyd yn oed pan fo tystiolaeth glir. Yn y sefyllfa hon roedd yn disgrifio'r sawl oedd yn ei cham-drin fel ei gofalwr.

6

Ymarfer Effeithiol:

- Roedd y cyfathrebu a'r cyfnewid gwybodaeth rhwng gwasanaethau ac asiantaethau yn dda ac roedd systemau'n cael eu dilyn yn briodol.
- Gwnaeth yr Heddlu gymaint ag y gallent o ran gwneud datgeliad Cyfraith Clare, dechrau cynnal 'Gwyllo gan yr Heddlu' ar adegau tyngedfennol a diystyru atal caniatâd i rannu gwybodaeth pan oeddent yn cyflwyno PPNs.
- Newidiwyd presgripsiynau mewn llawysgrifen am rai wedi'u hargraffu er mwyn dileu'r risg o ymyrryd â hwy
- Roedd y rhydwraith proffesiynol yn ymroddedig ac yn ddyfal

5

Pwyntiau Dysgu Allweddol

Byddai ymarfer seiliedig ar drawma, sy'n ddull sy'n seiliedig ar gryfderau o weithredu, wedi bod o gymorth i deall iechyd meddwl y fenyw ifanc hon a'i chamddefnydd o lawer o sylweddau.

Cysylltu â'r teulu ehangach: yr her i weithwyr proffesiynol yw sut i weithio mewn partneriaeth â theuluoedd, a all fod yn ffynonellau o gefnogaeth, gan barchu hawl yr unigolyn i gyfrinachedd hefyd.

A fu oedi cyn dod o hyd iddi? Roedd hi wedi marw ers peth amser pan ddaethpwyd o hyd iddi. Fodd bynnag, gwnaeth gweithwyr proffesiynol amrywiol ymdrech i gysylltu â hi ond nid oedd methu dod o hyd iddi yn anarferol. Yr hyn a allai fod wedi rhybuddio'r gweithwyr proffesiynol yw nad oedd wedi casglu ei phresgripsiynau ers peth amser. Nid dyma ei phatrwm ymddygiad arferol.

4

Pwyntiau Dysgu Allweddol

Cydweithio a chyfathrebu rhyngasiantaeth: mae'n bwysig meddwl am oblygiadau ehangach wrth gyflwyno PPN a pha asiantaethau y dylid eu hysbysu pan na all gofalwr fynd i mewn i dŷ mwyach.

Yr hyn oedd ar goll yn y sefyllfa hon oedd cyfle i bob gweithiwr proffesiynol a gwasanaeth ddod at ei gilydd i rannu gwybodaeth; i gynllunio strategaethau ac i gydlynu camau gweithredu. Cynhaliwyd MARAC ond ni wahoddwyd gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol ac felly roedd eu gwybodaeth a'u safbwyntiau ar goll o'r trafodaethau.